| | |
|---|---|
| **Date**/Dyddiad | 21 Mawrth 2019 |
| **Ask for**/Gofynwch am | M Matthews |
| **Telephone**/Rhif ffôn | 01446 709727 |
| **Fax**/Ffacs | |
| **e-mail**/e-bost | MMatthews@valeofglamorgan.gov.uk |
| **Your Ref**/Eich Cyf | |
| **My Ref**/Cyf | MM/LLANC |

**The Vale of Glamorgan Council**
Learning and Skills
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU
Telephone: (01446) 700111
www.valeofglamorgan.gov.uk

**Cyngor Bro Morgannwg**
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU
Rhif ffôn: (01446) 700111
www.bromorgannwg.gov.uk


At: Rhieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan;

Pennaeth, Staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llancarfan;

Ymgyngoreion Rhagnodedig

Annwyl Ymgynghorai,

**Cynnig i adlunio darpariaeth gynradd yng ngorllewin y Fro trwy:**

- **Greu adeilad ysgol gynradd newydd 210 lle gydag ysgol feithrin 48 lle rhan amser ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan yn y Rhws.**
- **Symud staff a disgyblion o Ysgol Gynradd Llancarfan i'r adeilad ysgol newydd.**
- **Newid ystod oedran Ysgol Gynradd Llancarfan o 4 - 11 oed i 3 -11 oed.**

Ar 18 Mawrth 2019, penderfynodd Cabinet Cyngor Bro Morgannwg ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg gynradd yng Ngorllewin y Fro trwy drosglwyddo Ysgol Gynradd Llancarfan i safle ysgol newydd yn y Rhws ar dir sydd tua'r gogledd-orllewin o'r rheilffordd, ac estyn yr ystod oedran a chynyddu capasiti'r ysgol. Cynigir gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2021.

Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad llawn gydag ymgynghoreion penodol a phenderfynwyd cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig. Ystyriodd y Cabinet, wrth wneud ei benderfyniad, holl adroddiadau blaenorol y Cabinet yn ymwneud â'r cynnig; yr ymatebion i'r ymgynghoriad fel y nodir yn yr Adroddiad Ymgynghori a'r amcanion statudol a gafwyd ynghyd ag ymateb yr awdurdod lleol fel y nodir yn yr Adroddiad Gwrthwynebu. Gan ystyried yr holl faterion, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo'r cynnig. O ganlyniad, bydd Ysgol Gynradd Llancarfan yn symud i safle ysgol newydd yn y Rhws ar dir tua'r gogledd-orllewin o'r rheilffordd o 1 Medi 2021 a bydd ystod oedran mwy a rhagor o gapasiti ysgol.

Nodwyd bod 102 gwrthwynebiad statudol. Ceir crynodeb o brif bryderon y gwrthwynebwyr yn adroddiad y gwrthwynebiad, ynghyd â'r ymateb gan yr awdurdod lleol. Mae adroddiad y gwrthwynebiad ar gael i'w weld ar wefan y cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk/westernvalereconfiguration neu mae copi caled ar gael ar gais i'r cyfeiriad uchod neu drwy anfon e-bost i: MMatthews@valeofglamorgan.gov.uk.

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd yn cynnig yn:

- Galluogi'r ysgol i wella ymhellach wrth ddarparu ar gyfer poblogaeth ddisgyblion fwy;
- Galluogi'r canlyniadau addysgol a'r safonau yn yr ardal i wella eto fyth;
- Cynnal mynediad a dewis rhieni ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ardal;
- Rheoli'r cyflenwad a galw am lefydd ysgol yn yr ardal.

Wrth benderfynu ar y cynnig, ystyriodd y Cyngor y ffactorau canlynol fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgol 2013, fel a ganlyn:

**Ansawdd a Safonau Addysg**

Barn Estyn oedd bod y cynnig yn debygol o leiaf o gynnal safonau'r ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

Dywedodd Estyn bod "Cyngor Bro Morgannwg wedi cyflwyno rhesymeg gadarn dros y cynnig i greu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan ac ychwanegu 48 lle ysgol feithrin ar sail rhan amser ar safle newydd yn y Rhws. Mae'n gosod y manteision ac anfanteision a ddisgwylir gan y cynnig yn glir. Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Gynradd Llancarfan, disgyblion y dyfodol yn ogystal â rhai yn ysgolion cynradd y Rhws, Llanfair ac Sant Nicholas. Mae hyn oherwydd y byddai'r newid dalgylchoedd a gynigir yn y Rhws er mwyn cynnwys y safle ysgol newydd yn effeithio ar ddisgyblion yr ysgolion hyn. Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried yn briodol y safonau addysg, llefydd gwag mewn ysgolion, trefniadau teithio disgyblion, hygyrchedd darpariaeth, safon a chynaliadwyedd adeiladau ysgol, buddsoddiad ariannol a'r costau rhedeg."

Bydd y cynnig yn datblygu dilyniant a chynnydd yn nysg plant o dair oed, a bydd hynny'n rhoi dull cyson o 3 i 11 oed i hyrwyddo a gosod sail i'r dilyniant a chynnydd disgyblion, gan sicrhau lled a chydbwysedd trwy'r cwricwlwm.

Bydd adeilad a lleoliad newydd yn galluogi datblygu cwricwlwm llawn profiadau cyfoethog ymhellach, cwricwlwm sy'n herio plant, yn codi cyrhaeddiad ac yn datblygu perthnasau rhyngbersonol.

Bydd y cynnig yn creu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol y gellid eu haddasu i gyd-fynd â newid, a herio a chefnogi plant i gyrraedd eu potensial llawn.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Mae'r Cyngor wedi ystyried a yw nifer y llefydd ysgol yn ddigonol yn yr ardal a'r galw tebygol yn y dyfodol. Bydd y cynnig yn sicrhau y bydd cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw am lefydd ysgol gynradd yn yr ardal i ateb y galw o'r datblygiadau tai newydd yn y Rhws a gostwng nifer y llefydd sy'n ormodol yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru.

Dan y cynnig hwn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar drafnidiaeth plant i ac o'r ysgolion. Byddai trafnidiaeth ysgol yn cael ei darparu yn unol â pholisi trafnidiaeth y Cyngor, sy'n darparu trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol am ddim i blant sy'n byw mwy na 2 filltir o'u dalgylch neu eu hysgol addas agosaf. Ni ddarperir trafnidiaeth ysgol am ddim i blant sy'n mynd i ysgol feithrin mewn ysgol.

Dywed Estyn: "Mae'r cynllun wedi ystyried yn briodol yr effaith ar drefniadau teithio dysgwyr, o ran cymhwysedd disgyblion mewn oedran ysgol statudol i gael trafnidiaeth ysgol am ddim dan y polisi awdurdodau lleol presennol. Mae'n cydnabod y bydd gan rai disgyblion sy'n byw yn nes at y safle ysgol presennol bellter hwy i deithio."

**Ariannu addysg**

Bydd y cyllid yn unol â fformiwla cyllido ysgolion Cyngor Bro Morgannwg. Bydd yr ysgol yn cael adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol gynradd arall yn y Cyngor, sy'n dyrannu rhan fwyaf y cyllid ar gyfer ysgolion ar sail nifer y disgyblion. Yn ystod y cyfnod pontio, bydd y

Cyngor yn rhoi diogelwch ariannol ychwanegol i Ysgol Gynradd Llancarfan er mwyn cynnal y lefelau staffio presennol a diogelu'r ysgol yn y dyfodol.

Golyga'r cynnig y gwneir buddsoddiad cyfalaf sylweddol er mwyn trosglwyddo'r safle i ysgol newydd. Amcanir y bydd y cyllid cyfalaf sydd ei angen i adeiladu ysgol newydd ar safle maes glas gan gynnwys gosod cyfleustodau a phriffyrdd, yn £4.185 miliwn. Disgwylir y bydd y Cyngor yn cael £2.720 miliwn o arian cyfatebol Band B Llywodraeth Cymru drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Ariennir y gweddill trwy gyfraniad y Cyngor a nodir yn y Rhaglen Gyfalaf.

Yn gywir

Paula Ham
Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau